Fel rwyf wedi egluro o’r blaen, ar Shabbat (machlud haul ddydd Gwener hyd at fachlud haul ddydd Sadwrn), yn y synagog, pan fyddwn ni'r Iddewon yn ymgynnull i gwrdd a gweddïo, byddwn yn darllen cyfran wythnosol o'r *Torah* (pum llyfr cyntaf Moses).

Gelwir y gyfran (y 'parashah' yn Hebraeg), a ddarllenir y Shabbat hwn yn '*Yitro*' ar ôl ei eiriau agoriadol, sy'n golygu 'A chlywodd Jethro' ac mae’n cyfeirio ato *Shemot* ('Enwau') neu Exodus 18: 1-20: 23.

*Shemot* neu Exodus yw ail lyfr y Beibl Hebraeg. Mae'n adrodd hanes alltudiaeth, caethwasiaeth a rhyddhad Pobl Israel yn yr Aifft.

*Yitro* yw enw Hebraeg Jethro, offeiriad Midian, a oedd hefyd yn dad-yng-nghyfraith i Moses, y proffwyd a'r achubwr Iddewig. Mae'r parashah hwn yn cyfeirio at roi’r Deg Gorchymyn.

Mae hefyd yn digwydd bod y gyfran a adroddais yn Hebraeg yn y synagog i nodi fy bar mitzvah - y seremoni Iddewig sy'n nodi pan mae bachgen yn dod yn ddyn yn dair ar ddeg oed - 36 o flynyddoedd yn ôl.

Cofiais iddi fwrw eira'r diwrnod hwnnw a phan drafododd y rabbi y Deg Gorchymyn yn ei bregeth, daeth i'r waharddeb yn erbyn godinebu a dweud, 'Bydd amser i hynny eto'.

Ond mae'r parshah yn cyfeirio ddwywaith at 'boethoffrymau', hynny yw, anifail a aberthir mewn tân. Yn Hebraeg, y gair yw *olah*, sef gwreiddyn y gair Groeg Holocost. Mae rhai beiblau Catholig yn parhau i ddefnyddio'r gair Holocost wrth gyfeirio at boethoffrwm.

Heddiw, defnyddir y term Holocost i gyfeirio at lofruddiaeth systematig chwe miliwn o ddynion, merched a phlant Iddewig gan y Natsïaid a'u cynghreiriaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd am eu bod yn Iddewon.

Yr wythnos diwethaf, 27 Ionawr, oedd Diwrnod Cofio'r Holocost blynyddol, sy'n coffáu rhyddhad Auschwitz - y gwersyll marwolaeth mwyaf a adeiladwyd gan y Natsïaid at un pwrpas syml: difodi Iddewon ac eraill ar raddfa ddiwydiannol. Gwnaethom nodi'r diwrnod trwy wrando ar ddarlith gan Gabriel Stein am ei deulu a oroesodd yr Holocost trwy lwc dda.

Er fod digwyddiadau’r Holocost dros 76 mlynedd yn ôl bellach, mae’n beth da eu cofio yng nghyd-destun tanllyd heddiw, pan mae gwrth-semitiaeth a mathau eraill o gasineb mor amlwg ledled y byd ac yn enwedig gyda dadleuon ynglŷn â mewnfudo a sut rydym yn trin dieithriaid. yn ein gwlad ein hunain.